**Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**HSS(2)-05-03(min)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **Dydd Mercher, 5 Tachwedd 2003** |
| **Amser:** | **9.00am - 12.50pm** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru** |
| **Yn Bresennol:** | **Aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** |

| | |
|---|---|
| David Melding, **(Cadeirydd)** | Canol De Cymru |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Jane Hutt (Gweinidog) | Bro Morgannwg |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| Lynne Neagle | Tor-faen |
| Gwenda Thomas | Castell-nedd |
| Kirsty Williams | Brycheiniog a Sir Faesyfed |

**Swyddogion yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Dr Christine Daws | Is-adran Cyllid y GIG |
| Dr Ruth Hall | Y Prif Swyddog Meddygol |
| Joanest Jackson | Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |
| Ann Lloyd | Cyfarwyddwr, GIG Cymru |
| Mike Lubienski | Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |
| Mike Shanahan | Yr Is-adran Polisi Gofal Cymdeithasol |
| Helen Thomas | Cyfarwyddwr, yr Adran Polisi Cymdeithasol |

**Yr Ysgrifenyddiaeth:**

| | |
|---|---|
| Jane Westlake | Clerc y Pwyllgor |
| Claire Morris | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Peter Jones | Cwnsler y Pwyllgor |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau, Eilyddion a Datganiadau o Fuddiant

1.1 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.

1.2 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog *(9.05 - 10.05am)*
## Papur: HSS(2)-05-03(p.1)

2.1 Gwnaeth y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygiadau orthopedig yn Ymddiriedolaethau GIG Gwent a Chaerdydd a'r Fro. Amgaeir copi yn Atodiad A.

2.2 Mewn ymateb i sylwadau gan yr aelodau ar y datganiad, gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol:

- Byddai hynt y cynlluniau'n cael eu monitro bob mis. Byddai gwybodaeth am amserau aros hefyd yn fodd i fonitro hynt y gwaith.
- Roedd dadansoddiad meincnodi wedi'i gynnal. Byddai crynodeb yn cael ei gynnwys yn adroddiad nesaf y Gweinidog, ynghyd â manylion ynghylch sut y disgwylid i'r cyllid ychwanegol leihau amserau aros.
- Roedd derbyniadau brys yng Ngwent 30 y cant yn uwch na'r cyfartaledd yn Lloegr ac roedd

derbyniadau nad oeddent yn rhai brys yn is. Roedd hyd pob arhosiad ar gyfartaledd naw y cant yn uwch.

- Ni fyddai'r dyraniad yn talu'r holl gostau refeniw. Disgwylid i'r Ymddiriedolaethau wneud cyfraniad.
- Byddai cynllun St Woolos yn mynd rhagddo'n syth a byddai cynllun Nevill Hall yn mynd yn ei flaen maes o law. Byddai mwy o fanylion yn cael eu darparu ynghylch yr amserlen ar gyfer datblygiad Nevill Hall.

2.3 Mewn ymateb i sylwadau a chwestiynau'r Aelodau am ei hadroddiad, gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol:

### Arloesi mewn Gofal

- Roedd angen y cynllun Arloesi mewn Gofal er mwyn bodloni'r galw am wasanaethau o ganlyniad i'r nifer fawr o bobl sy'n dioddef o afiechyd neu sy'n oedrannus yng Nghymru.
- Roedd Rheolwyr Gwella'r Adran Cleifion Allanol yn rhoi cyfle i gleifion allanol fod â mwy o ran yn y broses o drefnu apwyntiadau ac o ganlyniad, roedd y system yn fwy effeithlon.
- Ni fyddai modd lleihau amserau aros heb ymyrraeth a heb foderneiddio'r system.
- Roedd angen i lawdriniaethau trawma ac orthopedeg gael eu rheoli'n ofalus oherwydd yr effaith yr oedd derbyniadau brys yn ei chael ar y gallu i wneud llawdriniaethau dewisol. Roedd mynd ati mewn ffordd amlddisgyblaethol yn ysgafnhau'r pwysau ar wneud llawdriniaethau.
- Roedd dilysu rhestrau aros ar gyfer cleifion mewnol a chleifion allanol yn bwysig iawn ond cydnabuwyd bod angen bod yn fwy sensitif wrth ysgrifennu at gleifion a oedd yn aros am driniaeth.
- Cyfrifoldeb y Byrddau Iechyd Lleol oedd gweithio â'u timau meddygon teulu, cymunedol a gofal sylfaenol er mwyn sicrhau eu bod yn delio â chleifion a'r sectorau gofal sylfaenol ac eilaidd mewn ffordd gynhwysfawr.
- Roedd yn ddyddiau cynnar o hyd o ran y prosiect i gynyddu'r amser a dreulir yn y theatr a byddai adroddiad manwl ar hynt y gwaith yn cael ei ddarparu.

2.4 Cadarnhaodd Ann Lloyd fod materion yn ymwneud â setliad ariannol Bwrdd Iechyd Lleol Gwent heb eu datrys ond y gobaith oedd y byddai modd gwneud hynny yr wythnos ganlynol.

### Amserau Aros ar gyfer Llawdriniaeth y Galon ac Angiograffi

- Roedd tua 50% o bobl yn cael angiogramau 'trwy'r drws'. Roedd cleifion yn dod i'r ysbyty oherwydd eu bod yn fwy ymwybodol o'r cyfleusterau a oedd ar gael.
- Roedd trafodaethau'n mynd rhagddynt â'r rhwydwaith glinigol ynghylch gwasanaethau'r galon ar gyfer Gwent. Byddai mwy o fanylion yn cael eu darparu unwaith y byddai'r trafodaethau hyn wedi'u cwblhau.
- Cydnabu'r Gweinidog fod staff Adran y Galon yn Ysbyty Treforys wedi ymrwymo i leihau amserau aros.

## Contract y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS)

- Roedd amserlen ddeddfwriaethol yn parhau i gael ei threfnu â'r Adran Iechyd. Byddai'r Aelodau'n cael rhestr o'r is-ddeddfwriaeth yr oedd ei hangen er mwyn gweithredu'r contract cyn gynted ag y byddai ar gael iddynt. Ni fyddai'r weithdrefn weithredol yn cael ei defnyddio ond pan fyddai rhaid.
- Roedd cynlluniau'r Byrddau Iechyd Lleol ar gyfer gwasanaethau ar Ôl Oriau yn cael eu gwerthuso. Byddai gwybodaeth am hynt y gwaith ac am y costau'n cael eu cynnwys yn adroddiad nesaf y Gweinidog.
- Byddai'n gofyn i'r Bwrdd Prosiectau drafod yr anawsterau a allai godi pan fyddai practis meddyg teulu yn croesi ffiniau'r Byrddau Iechyd Lleol.

## Oedi wrth Drosglwyddo Gofal

- Byddai mwy o wybodaeth am gerdyn sgorio cytbwys yng Ngwent yn cael ei darparu.
- Dylai cartrefi gofal annibynnol elwa ar y drefn o drosglwyddo arian i'r grant cynnal refeniw a roddir i awdurdodau lleol.

## 2ail Adroddiad Blynyddol Comisynydd Plant Cymru

- Byddai gwybodaeth am y nifer sy'n cael eu cyfeirio gan y Comisiynydd i adrannau'r gwasanaethau cymdeithasol yn ystod cyfnod ei adroddiad yn cael ei darparu mewn pryd i'w chyflwyno yn y cyfarfod llawn y prynhawn hwnnw.

## Gofal Piau Hi y Gaeaf Hwn

- Roedd practisau meddygon teulu yn cymryd camau blaenweithgar i gynnig brechiadau rhag y ffliw a rhagwelwyd y byddai mwy yn cael eu brechu eleni.

## Datblygiadau mewn perthynas â Rhieni

- Roedd rhianta corfforaethol yn bwysig fel rhan o'r holl faes sy'n ymwneud â rhieni a byddai'r Gweinidog yn trafod hyn yn ei hymateb i Bapur Gwyrdd Llywodraeth y DU, sef 'Mae Pob Plentyn yn Bwysig'.

## Archwiliadau Iechyd Llygaid

- Byddai'n rhoi mwy o wybodaeth am ddirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig ag oed (AMD).

## Newidiadau i'r Contract ar gyfer Ymgynghorwyr

- Byddai manylion diweddaraf y contract ar gyfer ymgynghorwyr yn cael eu cynnwys yn adroddiad nesaf y Gweinidog.
- Ni rhagwelid y byddai angen is-ddeddfwriaeth i newid y contract.

**Gweithredu**

- Byddai mwy o fanylion am yr amserlen ar gyfer datblygu adran orthopedig Nevill Hall yn cael eu darparu.
- Byddai manylion ynghylch hynt y prosiect sy'n ymwneud â chynyddu'r amser sydd ar gael o ran defnyddio'r theatr yn cael eu darparu.
- Byddai mwy o wybodaeth am wasanaethau'r galon ac am asesu cardiau sgorio cytbwys yng Ngwent yn cael ei darparu.
- Byddai mwy o wybodaeth am ddirywiad macwlaidd sy'n gysylltiedig ag oed (AMD) yn cael eu darparu.
- Byddai'r eitemau canlynol yn cael eu cynnwys yn adroddiad nesaf y Gweinidog:
- Dadansoddi'r broses o feincnodi gwasanaethau orthopedig yng Ngwent a manylion ynghylch sut y disgwylid i'r cyllid ychwanegol leihau amserau aros.
- Adroddiad ar hynt cynlluniau'r Byrddau Iechyd Lleol a chostau arfaethedig darparu gwasanaethau ar ôl oriau.

### Eitem 3: Rheoliadau a Safonau'r Asiantaethau Gofal yn y Cartref (Cymru) *(10.05 - 10.50am)*
### Papurau: HSS(2)-05-03(p.2a); HSS(2)-05-03(p.2b); HSS(2)-05-03(p.2c); HSS(2)-05-03(p.2d)

3.1 Cyflwynodd y Gweinidog y rheoliadau drafft a'r safonau gofynnol cenedlaethol.

3.2 Yn unol â'r weithdrefn y cytunodd y Pwyllgor arni ar gyfer ymdrin â deddfwriaeth, roedd pwyntiau o eglurhad a newidiadau i'r Rheoliadau drafft wedi'u dosbarthu cyn y cyfarfod ac fe'u ceir ym mhapur HSS (2)-05-03(p.2d).

### Pwynt o Eglurhad a godwyd gan Dai Lloyd AC, Plaid Cymru

Gofynnwyd am fwy o eglurhad ynghylch:

- y diffiniad o ofal personol;
- y meini prawf neu'r hawliau mynediad ar gyfer Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru i gartrefi sydd wedi'u dadreoli;
- yr arweiniad a roddir i ddarparwyr gwasanaethau ar gyfer y rheini sy'n dioddef o anableddau dysgu.

3.3 Derbyniwyd bod y dehongliad o ofal personol wedi'i ymestyn cyn belled ag yr oedd y Ddeddf Safonau Gofal yn ei ganiatáu. Er hynny, roedd yn destun pryder i'r Aelodau y byddai pobl ag anableddau dysgu difrifol sy'n byw mewn tai â chymorth yn agored i niwed pe byddai'r lleoliadau hyn yn cael eu dad-gofrestru i fod yn gartrefi gofal.

3.4 Dywedodd y Gweinidog fod y Grwp Gorchwyl a Gorffen wedi argymell y dylid gwneud mwy i fapio'r systemau comisiynu, contractio, arolygu a rheoleiddio a oedd yn amddiffyn pobl sy'n agored i niwed mewn lleoliadau tai â chymorth. Byddai'r gwaith yn dechrau cyn bo hir a disgwylid y byddai'n cael ei gwblhau ymhen chwe mis. Efallai y byddai angen cyflwyno system wedi'i theilwra'n arbennig ar gyfer tai â chymorth, ond byddai'r holl bosibiliadau'n cael eu hystyried. O dan y Ddeddf Safonau Gofal, nid oedd hawl gan Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru arolygu cartref defnyddiwr gwasanaeth. Serch hynny, gallai ofyn i ddefnyddiwr gwasanaeth neu i'w gynrychiolydd roi caniatâd.

## Y Gwelliannau a gynigir

## Rhan 1

**Gwelliant 1** *(Jonathan Morgan AC, Ceidwadwr)*:

ychwanegu pwynt newydd i Atodlen 1

"Amrywiaeth y gwasanaethau y mae'r asiantaeth yn eu his-gontractio."

Y Rhesymwaith: Nid oes sôn yng nghorff y rheoliadau na'r Atodlenni am y posibilrwydd y gallai'r asiantaeth ddarparu gwasanaethau wedi'u his-gontractio i sefydliadau eraill. Dylai defnyddwyr gwasanaeth fod yn ymwybodol o amrywiaeth y gwasanaethau y mae'r asiantaeth yn eu darparu. Byddai rheoliad 4, paragraff (1), is-baragraff (d), felly yn sicrhau bod y Datganiad o Ddiben yn cynnwys gwybodaeth o'r fath.

**Ymateb y Gweinidog**

Roedd egwyddor y gwelliant yn cael ei dderbyn. Byddai'r Gweinidog yn cyflwyno gwelliant er mwyn egluro'r mater cyn i'r rheoliadau gael eu trafod yn y cyfarfod llawn.

**Casgliadau**

Cafodd Gwelliant 1 ei dynnu'n ôl.

## Rhan II

**Gwelliant 2** (Jonathan Morgan AC, Ceidwadwr):

yn Atodlen 1 ychwanegu pwynt newydd:

'Y weithdrefn i'w dilyn gan yr asiantaeth ar gyfer symud person sydd wedi'i gael yn euog o drosedd a gyflawnwyd tra'r oedd yn darparu gwasanaethau i ddefnyddiwr gofal." *a*

**Gwelliant 3** *(Jonathan Morgan AC, Ceidwadwr)*:

ychwanegu is-baragraff newydd i reoliad 12 (Hysbysiad o Droseddau)

"(d) y weithdrefn i symud person pan fydd trosedd wedi'i chyflawni wrth ddarparu gwasanaethau gofal."

**Ymateb y Gweinidog**

Yr asiantaeth, yn hytrach na'r Cynulliad, a oedd yn gyfrifol am unrhyw gam a oedd yn cael ei gymryd yn erbyn person a gyflogwyd gan yr asiantaeth honno.

Cadarnhaodd Mike Lubienski, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol, fod y rheoliadau'n ymdrin â hyn. O dan Reoliad 15, roedd rhwymedigaeth ar y person cofrestredig i sicrhau nad oedd yn cyflogi rhywun nad oedd yn bodloni rhai meini prawf. Un o'r rhain oedd cynnal archwiliad i weld a oedd cofnodion troseddol wedi'u datgelu. Yn unol â Rheoliad 16(2)d, roedd yn ofynnol i'r person cofrestredig sicrhau bod pob aelod o staff yn eu hysbysu am unrhyw euogfarnau troseddol. Byddai'n rhaid i'r cyflogwr felly bwyso a mesur y drosedd a phenderfynu a oedd angen cymryd unrhyw gamau disgyblu, yn unol â'i drefn ddisgyblu ei hun. Roedd Rheoliad 17 yn ei gwneud yn ofynnol i'r person cofrestredig roi llawlyfr staff i bob aelod o staff sy'n nodi'r ymddygiad a ddisgwylir ganddynt a'r camau disgyblu y gellid eu cymryd yn eu herbyn.

**Casgliad**

Tynnwyd Gwelliant 2 a 3 yn ôl.

## Gwelliannau Rhan III

**Gwelliant 4** *(Jonathan Morgan AC, Ceidwadwr)*:

Yn rheoliad 14 (Trefniadau ar gyfer darparu gofal personol), dileu is-baragraff (a) o baragraff (1).

**Ymateb y Gweinidog**

Roedd gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i sicrhau bod asesiad o angen wedi'i gynnal. Nid oedd cefnogaeth i'r gwelliant gan mai'r farn oedd y byddai'n tanseilio'r asesiad statudol.

**Casgliadau**

Pleidleisiodd y Pwyllgor ar Welliant 4:

O blaid 2; Ymatal 3; Yn erbyn 5.

| Pleidleisiodd yr aelodau canlynol o blaid: | Ymataliodd yr aelodau canlynol: | Pleidleisiodd yr aelodau canlynol yn erbyn: |
|---|---|---|
| David Melding | Jocelyn Davies | John Griffiths |
| Jonathan Morgan | Dai Lloyd | Jane Hutt |
| | Kirsty Williams | Ann Jones |
| | | Val Lloyd |
| | | Gwenda Thomas |

Gwrthodwyd y gwelliant.

**Gwelliant 5** *(Gwenda Thomas AC, Llafur)*

Diwygio Rheoliad 14(2)(a) i ddarllen:

"(2) Rhaid i'r person cofrestredig -

(a) trefnu bod cynllun gofal y defnyddiwr gwasanaeth ar gael i'r

(i) defnyddiwr gwasanaeth, a,

(ii) unrhyw berson sy'n gweithredu ar ran defnyddiwr gwasanaeth yr ymgynghorwyd ag ef/hi wrth baratoi neu ddiwygio'r cynllun,"

**Ymateb y Gweinidog**

Derbyniwyd y gwelliant.

**Gwelliant 6** *(Gwenda Thomas AC, Llafur)*

Ychwanegu at reoliad 14(5) (a) "gan sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd yn ddi-oed i leihau'r perygl o gam-driniaeth, esgeulustod neu niwed arall pellach"

**Ymateb y Gweinidog**

Derbyniwyd y gwelliant, ar yr amod fod y geiriau'n cael eu newid i ddarllen:

> "gan sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd yn ddi-oed i leihau'r risg o *unrhyw* gamdriniaeth, esgeulustod neu niwed arall".

**Gwelliant 7** (Jonathan Morgan AC, Ceidwadwr):

yn rheoliad 14, paragraff (5), ychwanegu is-baragraff (b) newydd ac ad-drefnu yn unol â hynny

"(b) yn pennu na ddylai person y mae honiad o gamdriniaeth, esgeulustod neu niwed wedi'i wneud yn ei erbyn fod mewn cysylltiad ag unrhyw ddefnyddiwr gwasanaeth yn ystod y weithdrefn ymchwilio;"

**Ymateb y Gweinidog**

Ni dderbyniwyd y gwelliant am yr un resymau ag y gwrthodwyd Gwelliant 2 3.

**Casgliad**

Pleidleisiodd y Pwyllgor ar Welliant 7:

O blaid 3; Ymatal 2; Yn erbyn 5.

| Pleidleisiodd yr aelodau canlynol o blaid: | Ymataliodd yr aelodau canlynol: | Pleidleisiodd yr aelodau canlynol yn erbyn: |
|---|---|---|
| David Melding | Jocelyn Davies | John Griffiths |
| Jonathan Morgan | Dai Lloyd | Jane Hutt |
| Kirsty Williams | | Ann Jones |
| | | Val Lloyd |
| | | Gwenda Thomas |

Gwrthodwyd y gwelliant.

**Gwelliant 8** (Jonathan Morgan AC, Ceidwadwr):

dileu rheoliad 22, paragraff (2) a rhoi yn ei le

"(2) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi canllawiau sy'n amlinellu'r weithdrefn gwynion sy'n

galluogi'r staff i:

a. hysbysu'r asiantaeth am eu barn ar unrhyw fater sy'n berthnasol i'r rheoliad hwn;
b. hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol, heb gyfeiriad at yr asiantaeth, am eu barn ar unrhyw fater sy'n berthnasol i'r rheoliad hwn.

**Ymateb y Gweinidog**

Yr asiantaethau sydd wedi'u rheoleiddio, yn hytrach na'r Cynulliad, a oedd yn gyfrifol am eu gweithdrefn gwynion eu hunain. Byddai'r Gweinidog yn diwygio'r rheoliad i gynnwys, "heb gyfeiriad at yr asiantaeth", a fyddai'n sicrhau cyfrinachedd yr aelodau hynny o staff a oedd am hysbysu'r person cofrestredig am unrhyw bryderon sydd ganddynt.

**Casgliad**

Tynnwyd y gwelliant yn ôl.

3.4 Cadarnhaodd y Gweinidog na fyddai'r asiantaethau hynny a oedd wedi gwneud cais o fewn yr amser penodedig yn cael eu herlyn nes y penderfynwyd ar eu cais pe byddai unrhyw oedi wrth brosesu'r ceisiadau ar gyfer eu cofrestru.

3.5 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Gweinidog gynnwys yn ei hadroddiad nesaf ddeunydd ar y dull o weithredu, gan gynnwys y gallu i hyfforddi staff.

3.6 Gofynnodd yr aelodau i sicrhau bod y rheoliadau'n cael eu llunio mewn iaith a oedd yn niwtral o ran rhyw, gan eu bod ar gyfer Cymru yn unig.

**Gweithredu**

- Dylid cynnwys gwybodaeth am y trefniadau gweithredu, gan gynnwys y goblygiadau o ran hyfforddi staff, yn adroddiad nesaf y Gweinidog.
- Dylid ailddrafftio'r rheoliadau, gan ddefnyddio iaith niwtral o ran rhyw.

## Eitem 4: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol

***(11.10 - 12.15pm)***

## Papur: HSS(2)-05-03(p.3)

4.1 Cyflwynodd y Gweinidog ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru.

4.2 Canolbwyntiodd y Pwyllgor ar drafod y pedair prif thema sy'n sail i gynllun gweithredu Llywodraeth y Cynulliad.

## Atal

4.3 Gwnaeth aelodau'r wrthblaid y pwyntiau canlynol:

- Roedd yr Adolygiad wedi dod i'r casgliad "nad oedd y sefyllfa bresennol yn gynaliadwy" ac nad oedd rhai gwasanaethau'n ddiogel. Roedd ymateb Llywodraeth y Cynulliad wedi methu mynd i'r afael â'r angen i weithredu'n ddi-oed.
- Nid oedd digon o fanylion ynghylch sut i gyrraedd nodau canmoladwy megis atal afiechyd a lleihau risgiau y gellid eu hosgoi.
- Nid oedd yr ymateb yn cynnwys amcanion mesuradwy na thargedau y gellid monitro cynnydd yn eu herbyn.
- Nid oedd ynddo unrhyw gynllun strategol ar gyfer sicrhau gwelliant mewn ymateb i'r adroddiad nac ychwaith arwydd ei fod wedi dylanwadu ar y Llywodraeth.

4.4 Dywedodd y Gweinidog fod yr ymateb hwn yn peri siom iddi. Roedd nifer o fentrau, yn seiliedig ar Gwella Iechyd yng Nghymru, wedi'u rhoi ar waith i geisio gwella'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a ddarperir i bobl Cymru. Nid oedd am weld newidiadau mawr strwythurol pellach. Ei hawydd oedd datblygu'r byrddau iechyd lleol a'r mentrau newydd eraill er mwyn moderneiddio gwasanaethau.

## Darparu Gwasanaethau Gwell

4.5 Gwnaeth yr Aelodau y pwyntiau a ganlyn:

- Dylid rhoi mwy o flaenoriaeth i Asesu'r Effaith ar Gymru gan eu bod yn effeithio ar bob polisi.
- Roedd rhwydweithiau clinigol sydd wedi'u rheoli yn bwysig.
- Byddai'r rhaglen Hysbysu Gofal Iechyd yn allweddol. Roedd angen dybryd am systemau TG integredig a modern ac roedd Cofnod Electronig y Claf yn allweddol i'r systemau hynny. Byddai'n sicrhau parhad o ran rhoi gofal i gleifion ym mhob un o'r lleoliadau gofal iechyd, yn galluogi gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd i gadw mewn cysylltiad â'i gilydd ac yn darparu data dilys a dibynadwy.
- Byddai'r broses o gynllunio'r gweithlu yn allweddol wrth fynd ag argymhellion yr Adolygiad yn eu blaenau a byddai angen cynnwys undebau llafur a chymdeithasau staff yn y gwaith hwn.

4.6 Gwnaeth aelodau'r wrthblaid y pwyntiau canlynol:

- Roedd angen rhoi gwybod i'r cyhoedd am y broses o ddatblygu gwasanaethau ac am y rhesymau dros eu newid.
- Ymhlyg yn hyn, mae cwestiynau ynghylch gwariant llywodraeth leol ar ofal cymdeithasol, rhannu cyllidebau ac a ddylai'r awdurdodau dalu'r GIG pan fydd achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal. Nid ymdrinniwyd â'r rhain.
- Oni bai y câi'r pwysau ar restrau aros eu hysgafnhau'n gyflym, nid oedd llawer o obaith y byddai argymhellion tymor hir yr Adolygiad yn cael eu gweithredu. Dylai'r Gweinidog ystyried y ddarpariaeth ar gyfer trin pobl y tu allan i Gymru.
- Nid llywodraeth leol oedd yr unig ddull o ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol. Roedd angen rhoi mwy o gydnabyddiaeth i'r rhan roedd y sectorau gwirfoddol a phreifat yn ei chwarae.
- Mae pwysigrwydd systemau TG integredig wedi'i gydnabod ers blynyddoedd maith ac roedd angen gweithredu ar frys i sicrhau bod systemau'n cyd-fynd â'i gilydd.

4.7 Cyflwynodd y Gweinidog y pwyntiau canlynol:

- Byddai'r rhaglen Hysbysu Gofal Iechyd yn cael ei lansio ym mis Rhagfyr. Roedd £16 miliwn wedi'i glustnodi i'w rhoi ar waith a byddai angen neilltuo swm sylweddol er mwyn hyfforddi'r staff.
- Roedd y grant hyblygrwydd wedi'i ddiogelu ac wedi'i glustnodi.
- Roedd y Llywodraeth yn cysylltu â'r sector gwirfoddol. Roedd £3 miliwn wedi'i dyrannu ar gyfer 'Building Stronger Bridges'.
- Nid oedd yn bosibl i leihau nifer y cleifion dros nos. Roedd mwy o bobl yn mynd at ysbytai yng Nghymru nag mewn unrhywle arall.
- Strategaeth y Llywodraeth oedd sicrhau mwy o leoedd a gwella gwasanaethau yng Nghymru yn hytrach na'u cyfeirio y tu allan i Gymru. Yr ymgynghorwyr a oedd wedi cymryd y camau cyntaf i geisio lleihau nifer y llawdriniaethau tonsilectomi. Roedd partneriaeth yn bwysig.

4.8 Cafodd y drafodaeth ei gohirio tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

**Eitem 5: Cynigion ar gyfer y Gyllideb 2004-05** ***(12.15 - 12.40pm)***
**Papur: HSS(2)-05-03(p.4)**

5.1 Cyflwynodd y Gweinidog y gyllideb ddrafft ar gyfer 2004-05.

5.2 Mynegodd yr aelodau bryder ynghylch a oedd digon o ddarpariaeth ar gyfer:

- gwasanaeth Ar Ôl Oriau meddygon teulu;
- cyllid llywodraeth leol ar gyfer gofal cymdeithasol;
- y gost o roi'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith Ewropeaidd ar waith o fis Awst 2004 ymlaen; a
- byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG. Dim ond cynnydd gwirioneddol o 5.02 y cant a

geid ar ôl chwyddiant ac ar ôl tynnu'r arian sydd wedi'i glustnodi.

5.3 Hefyd, ym marn yr aelodau:

- ni fyddai llawer o arian ar ôl o'r grant cynnal refeniw a oedd wedi'i ddarparu i'r awdurdodau lleol ar gyfer gofal cymdeithasol ar ôl talu'r codiadau cyflog.
- dylid ystyried yr egwyddorion a geir yn adroddiad Townsend yn fformiwla'r Grant Cynnal Refeniw;
- y gobaith oedd y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn helpu i ariannu cam nesaf yr Ysbyty i Blant.

5.4 Wrth ymateb i'r sylwadau hyn ac i gwestiynau eraill, gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau a ganlyn:

- Roedd y Byrddau Iechyd Lleol wedi cael benthyciadau dros gyfnod o dair blynedd er mwyn cwrdd â chostau'r newid strategol a'r cynlluniau effeithlonrwydd.
- Nid oedd dadansoddiad ar gael o'r £24 miliwn a oedd wedi'i ddyrannu i dalu am y contract ar gyfer gwasanaethau meddygol. Roedd yr Adran Iechyd wedi cytuno ar y dyraniad.
- Ni fyddai'r Gwasanaeth Ar Ôl Oriau ar waith tan fis Rhagfyr 2004;
- Bu'n gweithio â'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a'r awdurdodau lleol i roi mwy o flaenoriaeth i ofal cymdeithasol, yn benodol drwy'r cytundebau polisi.
- Roedd y Gweinidog wedi cyfarfod ag Arweinwyr awdurdodau lleol i drafod sut y gellid mynd i'r afael â'r argymhellion a geir yn yr Adolygiad o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru a sut i ddiogelu'r cyllid.
- Byddai Fframwaith Gwasanaethau Cenedlaethol Plant yn cynnig llwybr bwysig o ran ystyried materion yn ymwneud â babanod newyddanedig pwysau isel.Roedd un o'r is-grwpiau'n ystyried sut yr oedd y cyfnodau mamolaeth a chyn-geni yn effeithio ar bwysau isel babanod newyddanedig.
- Roedd ffyrdd o foderneiddio taliadau bwydydd lles yn unol ag anghenion a strategaethau cyfredol yn cael eu hystyried. Byddai'r manylion diweddaraf yn cael eu rhoi i'r Pwyllgor.
- Byddai Ymddiriedolaethau, Byrddau Iechyd Lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru yn cael eu hysbysu am y codiadau yn y dyraniadau refeniw ym mis Rhagfyr. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn cael eu hysbysu.
- Byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i ariannu cam nesaf Ysbyty Plant Cymru.
- Byddai'r cynnydd yng nghyllideb Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGCC) yn helpu i hyfforddi gweithwyr gwasanaethau cyhoeddus.

**Gweithredu**

- Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog yn cyflwyno sylwadau'r Pwyllgor.
- Byddai'r Gweinidog yn darparu gwybodaeth am y newidiadau i'r ddarpariaeth bwydydd lles.
- Byddai'r aelodau yn cael eu hysbysu am y dyraniadau i'r BILl, Ymddiriedolaethau'r GIG a Chomisiwn Iechyd Cymru.

**Eitem 6: Amserlen yr Is-ddeddfwriaeth a gynigir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru *(12.40 - 12.45pm)***
**Papur: HSS(2)-05-03(p.5a) a HSS(2)-04-03(p.5b)**

6.1 Ni nodwyd unrhyw eitemau newydd i'w hystyried.

6.2 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Gweinidog a fyddai modd iddi ysgrifennu at y Pwyllgor yn y dyfodol pe byddai angen defnyddio'r weithdrefn weithredol ar gyfer eitem o ddeddfwriaeth yr oedd y Pwyllgor wedi'i nodi i'w hystyried.

**Eitem 7: Cofnodion *(12.45 - 12.50pm)***
**Papur: HSS(2)-04-03(min)**

7.1 Cymeradwywyd cofnodion 8 Hydref.

**Eitem 8: Unrhyw Fater Arall**

8.1 Gofynnwyd i'r Pwyllgor enwebu cynrychiolydd i gymryd rhan yn adolygiad polisi'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes o anghenion addysg arbennig. Cytunwyd mai'r Cadeirydd a fyddai'n eu cynrychioli.